

## Amynedd

**Darlleniad 1: Iago 5: 7-11**

**Darlleniad 2: 2 Pedr 4: 8-13**

---

---

O! Dduw, dewnn atat gan ryfeddu at gyfoeth dy diriondeb a'th ymatal a'th amynedd. Diolchwn ninnau am:

‘Ryfedd amynedd Duw  
Ddisgwyliodd wrthym cyd.’

Ein cyffes bob un ydyw:

‘Araf iawn wyf i i ddysgu,  
Amyneddgar iawn wyt ti.’

Am dy fod mor amyneddgar, y mae gobaith i ninnau. Pâr inni gofio dy hirymaros di, a phwyso ar dy ddaioni tuag atom, a'th awydd i ddwyn pawb i edifeirwch. Gofynnwn am ras i fyfyrion ar dy amynedd, i ymgadw rhag dy demtio, ac i beidio ag oedi cyn ymateb i ti. Gwna ni'n ystyriol o'r cariad tuag atom sydd wrth wraidd dy amynedd. Cadw ni rhag rhyfygu i gymryd mantais arno, a rhag tristáu dy Ysbryd Glân.

Diolchwn hefyd am amynedd pobl: amynedd rhieni gyda'u plant; dyfalbarhad athrawon da gyda'u disgyblion; ffyddlondeb cyfeillion sy'n glynu mewn amgylchiadau sy'n rhoi prawf ar gyfeillgarwch; goddefgarwch rhai sy'n hŷn at ormod brys rhai sy'n ifanc; sirioldeb rhai sy'n ifanc wrth genhedlaeth hŷn sy'n amharod i newid; hynawsedd ambell un sy'n brofiadol at fyrbwylltra ambell un sy'n anwybodus; tiriondeb pobl rasol at rai sy'n anodd eu trin a'u trafod. Diolchwn yn arbennig am amynedd rhywrai tuag atom ninnau, yn wyneb ein harafwch a'n diffygion.

Dewnn yn awr i ofyn am ras i gofio'r anogaeth i'th bobl 'fod yn amyneddgar wrth bawb', ac i oddef ein gilydd mewn cariad. Dyro

inni amynedd yn ein bywydau personol, i osgoi gwylltio'n ffôl am bethau dibwys, i dderbyn siomedigaethau heb chwerwi, i ddal ati pan fydd pethau'n gwrthod dod ar unwaith, i dderbyn y pethau na fedrwn eu newid, i ymostwng heb anobeithio, i ddysgu pwyll heb fod yn segur nac esgeulus, i drechu digalondid, ac i brofi dy rymuster di. Dyro inni amynedd at bobl eraill, rhag inni fod yn fyrbwyll tuag at rywun arall mewn ffordd na fyddem i neb ei dangos tuag atom ni, rhag inni gamfarnu neb, mewn anwybodaeth neu heb gydymdeimlad.

Helpa ni i feithrin ysbryd trugarog, i ddysgu rhoi'n hunain yn lle rhywun arall, i geisio deall cymhellion a gwendidau pobl. Dyro inni'r ddawn 'i obeithio i'r eithaf', ac i fod yn garedig i'r gwan a'r diamddiffyn, y rhai syml a phobl ddi-weld. Yn ein holl ymwneud ag eraill, dyro inni'r cariad i ddal ati, a chaniatâ inni'r llawenydd o weld amynedd yn dwyn ffrwyth.

Yn bennaf, dyro inni amynedd yng ngwaith dy deyrnas di. Pâr inni gredu yn dy lywodraeth di a'th bwrpas. Pâr inni fod yn fodlon yn dy waith, a boed inni ymhyfrydu yn dy wasanaeth ac amlygu dy gariad a'th ofal tuag at eraill. Pâr inni ymroi i hau had y gwirionedd, ac i fod yn effro bob amser i achub ein cyfle yn dy enw. Pan fo'n amser hau, dyro argyhoeddiad y daw cynhaeaf. Pan fo'n gweithwyr trosot yn brin, pâr i'n llafur ninnau fod yn helaeth. Dyro inni'r ddawn i ddyfalbarhau, ac i barhau hyd y diwedd. Dyro inni'r nerth mewnol sy'n drech nag amgylchiadau croes. 'Rho inni'r ffydd ddi-ildio a llwyr orchfyga'r byd.' Gofynnwn hyn er mwyn Iesu, awdur a pherffeithydd ein ffydd. Amen.

*John Rice Rowlands*